

COVID-19 – Sut gallwch chi helpu?

(30/03/20 - Y diweddaraf i wirfoddolwyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Annwyl wirfoddolwr

Diolch yn fawr i chi am wirfoddoli o fewn Sir Conwy ar yr adeg dyngedfennol hon; Mae'n galonogol gweld cymorth o'r fath yn cael ei roi. Fel y gallwch ddychmygu mae pob diwrnod yn cyflwyno heriau newydd ac rydym yn gweithio'n galed iawn i sicrhau ein bod yn rhoi'r cymorth a'r adnoddau mwyaf priodol ar waith i gadw pawb mor ddiogel â phosibl.

Gyda hyn mewn cof fel Cyngor Sir rydym bellach yn gallu defnyddio staff wedi'u hadleoli i gynorthwyo a delio ag unigolion sydd angen cymorth. Felly, er mwyn i chi gael eich cefnogi a'ch diogelu'n dda fel gwirfoddolwyr, ac i atal unigolion rhag cael eu boddi mewn gwaith, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddilyn yr opsiynau isod:

Opsiwn 1 – cofrestru eich diddordeb gyda CVSC y sefydliad sy'n ymroi i wirfoddoli yn y Sir a bydd yn gallu eich brocera gyda grŵp/mudiadau lleol yn eich ardal. Maent hefyd yn gallu cyfateb eich sgiliau, diddordebau a phrofiad ar gyfer anghenion datblygol y gymuned COVID 19

Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio 01492 534091/ 523842 / 523848 / 523846 neu drwy e-bostio: volunteering@cvsc.org.uk neu cliciwch ar y ddolen ganlynol i gofrestru proffil a gwneud cais i COVID-19 gwirfoddoli yn Sir Conwy
https://conwy.volunteering-wales.net/vk/volunteers/my_opportunities_info_ur.htm?pID=10155887&lang=CY

Opsiwn 2 – cysylltu â grŵp lleol yn eich ardal chi rydych chi'n gwybod amdano sy'n cefnogi ymdrechion COVID19 yn eich cymuned. Bydd bod yn rhan o grŵp yn eich helpu i fod yn fwy gwydn ac i sicrhau y gallwch gael gafael ar gymorth lle bo angen.

Ceir manylion am grwpiau o'r fath yn aml ar gyfryngau cymdeithasol neu y CVSC, sy'n datblygu darlun o'r rhwydwaith cymunedol ac yn cadw rhestr o grwpiau gweithredol i chi gysylltu â nhw.

Opsiwn 3 – Os ydych am wirfoddoli i helpu i gefnogi safleoedd ysbytai yna anfonwch e-bost at BCUHB.PublicVolunteers@wales.nhs.uk gyda'ch enw, eich oed a'ch manylion cyswllt.

O ganol yr wythnos nesaf, ni fydd llinell gymorth gymunedol 01492 575544 bellach yn cysylltu â gwirfoddolwyr unigol i wneud tasgau; byddant yn mynd drwy'r grwpiau sefydledig a fydd wrth gwrs yn croesawu eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

A gawn ni ddwyn ar y cyfle hwn eto i ddiolch i chi am eich brwdfrydedd i wirfoddoli yn eich cymuned ar adeg mor argyfyngus.